COFNODION CYFARFOD PARTNERIAETH TENANTIAID AC AELODAU WRECSAM A GYNHALIWYD YN NEUADD Y DREF WRECSAM DDYDD LLUN 17 RHAGFYR 2007

AELODAU

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Y Cynghorydd		A C Bailey	Y Cynghorydd		P Jeffares
"		J J Colbert	"		R Alun Jenkins
"	*	Nick S. Colbourne	"	*	P M Shone
"	*	Terry Evans	"		J R Skelland
"		K H Hett	"	*	Malcolm Williams

Yn cynrychioli Tenantiaid Wrecsam

	Ms Sonia Benbow-Jones		Ms Dorothy Mitchell
	Mr Charles Devlin	*	Mr Eric Moore
	Mrs Jacqui Finn	*	Mr Joe Skerrith
*	Miss Natasha Hill		Mr Brian Stapley
	Mr C R Lloyd		Mrs Dilys Torrens

*Absennol

1 Croeso

Croesawodd y cadeirydd y Cynghorydd J.J. Colbert i'w gyfarfod cyntaf o'r bartneriaeth.

2 Ymddiheuriadau am absenoldebau

Cyflwynwyd ymddiheuriadau ar ran y Cynghorwyr Nick S. Colbourne, Terry Evans a Malcolm Williams; hefyd Mr Eric Moore a Mr Joe Skerrith.

3 Cofnodion

CYTUNWYD – Derbyniwyd a chadarnhawyd Cofnodion Partneriaeth Tenantiaid ac Aelodau Wrecsam a gynhaliwyd ar 29 Hydref 2007 fel cofnod cywir.

Materion yn codi

Tudalen 1 Cofnodion - Materion yn codi ynghylch Tudalen 2 - Eitem 3(ii) - Datganodd Mr Charles Devlin ddiddordeb oherwydd bod ei chwaer yn byw yn un o'r tai ysgafn *(airey houses)* y cyfeiriwyd atynt. Cadarnhawyd hefyd y byddai'r adroddiad yn ôl i'r bartneriaeth yn awr yn cael ei gyflwyno ym mis Mawrth y flwyddyn nesaf, nid fis Ionawr.

Tudalen 3 -Eitem 4 - Adroddiad Rheoli - Swyddfa Dai Caia - Rhoddwyd gwybod i'r bartneriaeth y deuir ag adroddiad i'r bartneriaeth ynglŷn â Chyllidebau Gwelliant

Amgylcheddol i bob Swyddfa Dai pan fydd y Bwrdd Gweithredol yn cytuno ar Gyllideb Refeniw 2008/09 yn y flwyddyn newydd.

Tudalen 3 – Eitem 6 – Rhaglen Gyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) 2008/09 – Nodwyd y deuir ag adroddiad i'r bartneriaeth ym mis Ionawr ynglŷn â defnyddio incwm rhent o fewn y CRT.

4 Adroddiad Rheoli Ystad Gwersyllt

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Landlordiaid adroddiad (CHPPO/154/07) yn rhoi gwybod i'r bartneriaeth am berfformiad a materion yn codi ym mhob prif faes a reolir gan Swyddfa Dai Gwersyllt.

Cyflwynodd Christine Jones, Rheolwraig y Swyddfa Dai yr adroddiad ac amlygodd y canlynol yn ei chyflwyniad:

- Strwythur y swyddfa dai
- Cyfanswm yr eiddo a reolir yw 1382
- Daeth 89 yn wag a gosodwyd 86 yn ystod y cyfnod o fis Tachwedd 2006 i fis Tachwedd 2007. Nodwyd fod cyn Swyddfa Dai Llai i'w ddychwelyd i stoc dai Gwersyllt ac i'w addasu'n dŷ pedair ystafell wely.
- Ôl-ddyledion rhent a chamau gweithredu a gymerwyd i gasglu'r ddyled. Ers 2004/05 roedd yr ôl-ddyledion wedi lleihau o £66,549 (66%) a'r targed ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol 2007/08 oedd £30,000.
- Cynlluniau amgylcheddol/cynlluniau cyfalaf a wnaed yn cynnwys:
  Balconïau newydd; system mynediad drysau cymunedol a giât a ffens ddiogelwch well i fflatiau
  Cynlluniau ffensio
  Cynlluniau parcio
  Canopïau a drysau newydd
  Roedd prosiectau amgylcheddol posibl i'r dyfodol yn cynnwys cynlluniau ffensio a pharcio pellach i wella effaith weledol yr ardal.
  Ymglymiad cymunedol, h.y. Gwersyllt yn ei Flodau; cystadleuaeth arlunio Nadolig a gardd berlysiau.

Croesawodd y bartneriaeth yr adroddiad a llongyfarchwyd Christine Jones a'i thîm am y gwaith ardderchog a wneir gan y Swyddfa Dai. Hefyd cyfeiriwyd at:

- mynediad i'r anabl. Dim ond i fflatiau ar y llawr isaf y darperir hyn ar hyn o bryd.
- gosodir drysau newydd mewn eiddo fel y maent yn dod yn wag er mwyn osgoi'r angen i denantiaid gymryd amser i ffwrdd o'u gwaith. Adroddwyd bod drysau newydd yn cael eu gosod ar sail rhaglen dreigl mewn un ardal ar y tro i leihau costau. Y targed ar gyfer cwblhau pob drws oedd mis Mawrth 2009.
- pecynnau gwybodaeth am gartref (PGG) – rhoddwyd gwybod i'r bartneriaeth, gan nad oedd eiddo Hawl i Brynu yn cael eu gwerthu ar y farchnad agored, nad oedd angen darparu PGG. Er hynny rhaid i'r Cyngor wneud asesiad perfformiad egni i'r eiddo, a byddai'n rhaid i'r gost ddod o'r CRT. Gofynnodd y bartneriaeth am gael gwybodaeth am gostau.

- roedd prosiectau gwella amgylcheddol a wnaed gan swyddfeydd tai, fel ffensio, parcio oddi-ar-y-stryd, canopïau ac ati yn mynd tuag at gyflawni'r gwaith allanol oedd ei angen fel rhan o SATC.

CYTUNWYD- I nodi'r adroddiad.

5 Cynllun Cyfnewid '*Home Swappers*'

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Landlordiaid adroddiad (CHPPO/155/07) yn rhoi gwybod i'r bartneriaeth am y cynllun cyfnewid newydd i denantiaid.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Ms. Wendy Barnsley, Swyddog Polisi a Phrosiectau ac eglurodd fod '*Home Swappers'* yn wasanaeth cyfnewid lleol a chenedlaethol cilyddol i denantiaid sy'n awyddus i gyfnewid eu cartrefi gan ddefnyddio cyfleusterau'r rhyngrwyd. Ymunodd y Cyngor, fel landlord, â'r cynllun ym mis Tachwedd 2007 a gall tenantiaid y Cyngor gofrestru'n rhad ac am ddim. Nodwyd y byddai'r gofrestr gyfnewid gilyddol bresennol yn cau ar 31 Rhagfyr 2007. Rhoddwyd gwybod i'r holl ymgeiswyr presennol am y cynllun newydd yn ystod yr wythnos yn dechrau 3 Rhagfyr a'r angen am iddynt ail-gofrestru. Hysbysir yr holl denantiaid yn ysgrifenedig am y cynllun a chyhoeddir datganiad i'r wasg ym mis Ionawr 2008 yn rhoi gwybod iddynt am y gwasanaeth hwn.

Rhoddodd Mr Mark Bates o *'Home Swapper'* gyflwyniad i'r bartneriaeth oedd yn dangos sut fyddai'r cynllun yn gweithio'n ymarferol a nododd:

- wrth i denant gofrestru, byddai'r gwasanaeth *'Home Swapper'* yn chwilio'n awtomatig am gyfnewidwyr posibl ac anfon e-byst neu negeseuon testun i'r tenant yn rhoi gwybod iddynt pan fyddai'n bosibl cydweddu.
- os na fyddai gan denant fynediad at y rhyngrwyd (hyd yn oed drwy deulu, ffrindiau, gwasanaethau llyfrgell ac ati) byddai'r Gwasanaeth Tai yn darparu ffurflen gais *'Home Swapper'* a chofrestru ar eu rhan. Byddai'r gwasanaeth hefyd yn derbyn hysbysiadau e-byst ar ran tenantiaid a rhoi gwybod iddynt drwy'r post pan fyddai cydweddu'n cael eu hamlygu gan y gwasanaeth *'Home Swapper'*.
- ym mhob achos, pan fyddai tenant yn cael hyd i eiddo y byddai'n dymuno cyfnewid iddo, byddai rhaid iddo fynd i'w swyddfa dai leol i geisio cymeradwyaeth yn y modd arferol a byddai'r rheol chwe wythnos yn parhau yn gymwys.

CYTUNWYD – I nodi'r adroddiad.

6 Gosod Erialau Digidol

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Landlordiaid adroddiad (CHPPO/156/07) yn rhoi gwybod i'r bartneriaeth o'r gofynion i baratoi ar gyfer trosglwyddo i deledu digidol yng Nghymru.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Mr Lee Roberts, Uwch Swyddog Gwasanaethau Adeiladau ac amlygodd y canlynol:

- pam fod y DU yn trosglwyddo i deledu digidol.
- disgwylir cwblhau'r trosglwyddiad yng Nghymru erbyn mis Rhagfyr 2009.

- dechreuwyd ar y gwaith o ddiweddaru systemau teledu cymunedol ar gyfer derbyniad digidol ac roedd '*First Line Digital',* y contractwyr a ddewiswyd, wedi dechrau ar y gwaith ym mis Tachwedd 2007.
- roedd yn ofynnol i'r Cyngor fel landlord ddiweddaru ei systemau erialau cymunedol er mwyn gallu derbyn y signal digidol ar ôl trosglwyddo.
- roedd hi'n ofynnol mynd i'r afael â phroblemau gyda systemau a gwaith presennol er mwyn diweddaru holl systemau erialau cymunedol i Systemau Derbyn Integredig SDI *(Integrated Reception Systems IRS).*
- cynnydd a gwaith a gyflawnwyd hyd yma:
- byddai'r prif ffocws yn cynnwys unedau cysgodol a fflatiau 2/3 llawr gyda system analog gymunedol. Cynhwysir yn y rhaglen waith unrhyw eiddo a werthwyd oedd wedi cysylltu i'r system analog bresennol. Ymgynghorir â pherchenogion/prydleswyr yr adeiladau hyn a chodir tâl arnynt yn unol â hynny pe dymunent danysgrifio.
- bwriedir tiwnio'r SDI *(IRS)* i'r signal cryfaf ar gyfer yr adeilad arbennig hwnnw.
- ni chodir tâl ar breswylwyr mewn unedau cysgodol am wneud y gwaith hwn.
- gofynnwyd am ddarparu gwybodaeth bellach i unedau cysgodol ynghylch y switsio drosodd i ddigidol.

CYTUNWYD – I nodi'r adroddiad.

7 <u>Unrhyw Fater Arall</u>

(i) Mynegwyd pryder gan denantiaid am ddiffyg lleoedd parcio yn Neuadd y Dref ac awgrymwyd cynnal cyfarfodydd y dyfodol yn Swyddfeydd y Gwasanaethau Tai, Ffordd Rhuthun.

(ii) Gofynnwyd am gael ffigwr manwl cywir yn y cyfarfod nesaf ynghylch gosod drysau newydd.

8 <u>Dyddiad y cyfarfod nesaf</u>

Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y bartneriaeth ddydd Llun 28 Ionawr 2008 am 10.00 a.m. yn Swyddfeydd y Gwasanaethau Tai, Ffordd Rhuthun, Wrecsam.

Y Cynghorydd A C Bailey
Cadeirydd